

**COFNODION CYNGOR CYMUNED DYFFRYN ARDUDWY A TALYBONT A GYNHALIWDYD YN NEUADD GYMUNEDOL,  
DYFFRYN ARDUDWY AM 7.30 O'R GLOCH 05.05.15**

**5.1 YMDDIHEURIADAU**

Cyng. Edward Griffiths (Is-Gadeirydd), Emrys Jones, Liam Charlton.

**5.2 PRESENNOL**

Cyng. Owen Gwilym Thomas (Cadeirydd), John Ceri Evans, Catrin Edwards, Margretta Cartwright, Geraint Lloyd Wynne, John Ellis Williams, Sian Edwards, Edward Williams, Eryl Jones-Williams.

Cyn dechrau cyfarfod swyddogol y Cyngor croesawodd y Cadeirydd Mr. Andy Gittins i'r cyfarfod er mwyn iddo gyflwyno ei hun oherwydd ei fod wedi cael ei ethol fel Cadeirydd yn Grwp Adfywio newydd sydd ar hyn o bryd yn cael ei sefydlu. Adroddodd bod rhai newidiadau i'w gwneud cyn sefydlu y pwyllgor yn swyddogol ag oherwydd hyn nid oedd mwy o wybodaeth ar gael ganddo.

Cyn dechrau cyfarfod swyddogol y Cyngor croesawodd y Cadeirydd SCCH Darren Walters i'r cyfarfod er mwyn iddo gyflwyno ei hun. Dywedodd ei fod wedi cael ei leoli yn Bermo ers tua blwyddyn ag mae yn fwriad ganddynt ymweld ar Cynghorau Cymuned yn yr ardal mor aml a phosib oherwydd bod Rhingyll newydd wedi cychwyn sef y Rhingyll Iwan Jones ag mae ef yn awyddus iddynt wneud hyn. Datganwyd pryder bod dwyn olew wedi bod yn digwydd yn y pentref ag anogodd SCCH Walters i bawb archwilio ei tanciau olew mor aml a phosib i wneud yn siwr bod ddim rhagor wedi cael ei ddwyn. Hefyd datganodd bod yn fwriad ganddynt gynnal cymorthfeydd yn y pentref bob yn ail wythnos a Harlech a gobeithir dechrau hyn yn y dyfodol agos. Manylion SCCH Darren Walter yw SCCH 3479 (07557847456) Walters, Darren (PCSO 3479) [Darren.Walters@nthwales.pnn.police.uk].

**5.3 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

Estynodd y Cadeirydd longyfarchiadau i bawb o'r ardal a fuodd yn llwyddianus yn Sioe Amaethyddol Nefyn dydd Llun Gwyl y Banc.

**5.4 COFNODION**

Derbyniwyd cofnodion o gyfarfod Ebrill 7ed fel rhai cywir.

**5.5 MATERION YN CODI O'R COFNODION**

Item 4.1 a 4.2 eisiau nodi yn y cofnodion cymraeg bod yr Is-Gadeirydd yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf a bod y Cyng. Sian Edwards a Catrin Edwards ddim yn bresennol ac wedi anfon ymddiheuriadau.

Item 4.9 (G) adroddodd y Cyng. Eryl Jones Williams bod y Cyngor wedi cytuno bod enw'r Cyngor i fod yn gyntaf ar y wefan a ddim neuadd y pentref a chytunodd y Cadeirydd edrych i mewn i hyn.

**5.6 DATGAN DIDDORDEB**

Nid oedd neb yn datgan diddordeb ar unrhyw fater.

**5.7 MATERION CYNGOR GWYNEDD**

Adroddodd y Cyng. Eryl Jones Williams ei fod ers y cyfarfod diwethaf wedi mynychu y canlynol:- 10ed Ebrill 10-5 grwp rheilffordd Amwythig/Aberystwyth, Amwythig, 14eg 10-2 cyfarfod tai CCG Dyffryn Ardudwy, 20ed 10-4 pwyllgor safonau Caernarfon, 22ain 11-12 cyfrifon grwp adfywio Banc Barclays, Bermo, 23ain 6-9 hyfforddiant Llywodraethwyr coleg, Dolgellau, 24ain 11-3 cyfarfod lein y Cambrian, Porthmadog, 27ain 11-4 partneriaeth mewn gofal, Caernarfon, 28ain 8.30-3 newid mewn gofal, Ysbyty Alltwen, 29ain 7-9 grwp adfywio, Dyffryn Ardudwy. Newidiadau mewn gofal a gwelliannau i rhwydwaith y rheilffordd sydd wedi bod y prif bwytiau y mis yma. 'Roedd yr uned newydd sydd yn cael ei osod i fyny yn Ysbyty Alltwen wedi cael argraff dda arnaf, cynllun peilot yn cynnwys GIG ar gwasanaethau cymdeithasol i ardal Eifionnydd. Mae yn golygu bod y claf yn cael ei roi yn gyntaf a bod cynlluniau gofal at ddant y claf yn cael eu cyflwyno a gwneud i ffwrdd a llenwi aml ffurflen gan amryw swyddogion. Pan yn gweithio yn llawn bydd y claf/client yn ennill. 'Roedd y prif swyddogion i gyd yn bresennol a cytunwyd i edrych ar aml gofrestr mewn cartrefi gofal a rhoi mewn lle cyfleusterau a fyddai yn osgoi teithio yn bell, yn enwedig

i fobl gyda dementia. Mae cyfarfodydd eraill ar y cynnydd rhwng GIG ar gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu trefnu. 'Rwyf yn cael cwynion bod pobl yn cael trafferth i gael apwyntiad mewn meddygfeudd a mae y Cyngor Iechyd Cymunedol yn monitro'r sefyllfa. Mae y Gweinidog Trafnidiaeth wedi cadw ei addewid am wasanaeth tren bob awr ar y lein o'r Amwythig i Aberystwyth a gwasanaethu dwy awr ar lein y Cambrian. Nid oedd trafniadaeth yn mynd i'r gogledd o Bermo rhwng 6.00 a 10.00 yr hwyr ag felly bydd nawr dren o gwmpas 8.00 o'r gloch yr hwyr a bydd gwasanaethau drwedd i faes awyr Rhyngwladol Birmingham yn parhau. Mae uchwr platforms ar hyd lein y Cambrian gan gynnwys Dyffryn Ardudwy wedi cael eu gwella a cwbl sydd ar ol i'w wneud ydi peintio llinellau y platform. Mae arian grant ar gael er mwyn gallu creu parcio ychwanegol mewn gorsafoedd rheilffordd ag hyd yma mae rhan fwyaf o'r arian wedi mynd i gorsafoedd yn Powys ag Aberystwyth. Mae Cyngor Gwynedd wedi hysbysebu eto am wasanaethau bws newydd rhwng Harlech ar Oakley Arms. Mae wedi cael ei gyhoeddi bydd Bont Briwet yn agor i drafniadaeth erbyn diwedd Mehefin ag 'rwyf yn siomedig gyda'r tywydd wedi bod mor dda bod y gwaith heb gael ei wneud yn gynt. 'Roedd hyfforddiant cymlaeth dwys ar sut dylai Llywodraethwyr ysgol ddelio gyda cwynion, diswyddo, athrawon sydd yn dan berfformio a.y.y.b ag os bydd Llywodraeth Cymru ddim yn ofalus gallant fynd yn fyr o Lywodraethwyr ysgol oherwydd y pwysau gwaith ar cyfrifoldebau sydd yn cael ei roi arnynt fel gwirfoddolwyr. Mae gennyf adroddiad arwahan ar reolau newydd ddaeth i rym ar y 1af o Fai ynglyn a Cynghroau Tref a Chymuned yn darparu gwybodaeth ac yn agored gyda'r cyhoedd a mae y pwyllgor safonau a minnau wedi rhybuddio am hyn ers misoedd a mae y rheolau yn cynnwys bod yn rhaid cael safle gwefan Cyngor, gwybodaeth ynglyn a cyfarfodydd a buddiant personol a.y.y.b yn cael ei wneud yn gyhoeddus. Mae Priffyrdd Gwynedd yn mynd i gario allan gwaith ar y ffordd o Bro Enddwyn i Bron Foel mis yma ag wythnos yma mi wnaeth gweithwyr y priffyrdd ddefnyddio eu peiriant a glanhau ochrau y brif ffordd drwy'r pentref.

## **5.8 CEISIADAU CYNLLUNIO**

### **Amnewid y siale presennol gyda caban pren i'w ddefnyddio fel llety gwyliau - Coed y Bachau, Dyffryn Ardudwy (NP5/58100C)**

Cefnogi y cais hwn.

#### **Ceisiadau Cynllunio a penderfyniad arnynt**

Newidiadau i fynedfa safle sydd wedi ei gymeradwyo i ddarparu rhodfa ar wahan i 2 dy newydd - Safle ger Carleg Isa, Ffordd y Llan, Dyffryn Ardudwy (NP5/58/465B) - caniatâu

Caniatad adeilad rhestredig am newidiadau i drosi melin rawn grym dwr yn uned gwyliau - The Old Mill, Talybont (NP5/58/LB91C) - caniatâu

Estyniad ochor - 4 Penrhiw, Dyffryn Ardudwy (NP5/58/528A) - caniatâu

Diwygio manylion y ffenestr a'r drws i ddrychiad gogleddol y beudy sydd i'w drosi yn unig, i gynnwys: tynnu wal bloc a cherrig i fod cyfwyneb a'r adeilad gwreiddiol ac i gydweddu, gorchuddio yr holl fframiau ffenestri presennol gyda gorchudd brown fel a fyglwynwyd gyda'r cais, amnewid bordiau shiplap gyda paneli ffenestr a gorchuddio'r fframiau gyda gorchudd brown i gydweddu a'r fframiau ffenestri eraill, gosod ffenestr fach dderw ychwanegol yn mesur 380x700 - The Barns, Ffordd Tyddyn y Felin, Talybont (NP5/58/300C) - caniatâu

## **5.9 MATERION YN CODI**

### **A Ethol Swyddogion am y flwyddyn 2015/16:-**

Cadeirydd

Is-Gadeirydd

Pwyllgor Elin Humphries, Is-bwyllgor cynllunio, Is-bwyllgor cyllid, Is-bwyllgor fynwent, Is-bwyllgor seddi, CCTV, Is-bwyllgor hen barc chwarae, Un Llais Cymru, Llwybrau cyhoeddus, Llywodraethwyr ysgol gynradd.

**Oherwydd absenoldeb yr Is-Gadeirydd cytunwyd i ohirio y mater uchod tan y cyfarfod nesa yn mis Mehefin.**

### **B Cynllun Busnes**

Adroddwyd bod £1,267.63 wedi cael ei wario ers cychwyn y flwyddyn ariannol newydd.

### **C Tacluso y Pentref**

Ddim i'w drafod ar y mater uchod nes fydd y Grwp Adfywio wedi ei sefydlu a cytunwyd i dynnu y mater yma oddi ar yr agenda.

### **D Camerâu CCTV**

Ddim i'w drafod ar y mater uchod.

### **E Neuadd Bentref**

Ddim i'w drafod ar y mater uchod.

### **F Archwilio'r llochesi bws, mynwentydd a parciau chwarae**

Oherwydd absenoldeb y Cyng. Edward Griffiths nid oedd posib cael adroddiad o'r uchod.

### **G Ffioedd Claddu**

Adroddodd y Clerc ei bod wedi anfon at yr uchod yn gofyn am gopi o'r prisiau y maen't yn ei godi am gladdedigaethau yn eu mynwentydd er mwyn i'r Cyngor hwn gael rhyw ganllawiau i'w dilyn yn nawr bod y cynllun diffyg claddu gyda Cyngor Gwynedd wedi dod i ben. Adroddodd y Clerc ymhellach bod y Cyngor hwn wedi gwneud colled ariannol o £1,755.70 gyda'r fynwent yn ystod y flwyddyn ariannol diwethaf. Ar ol trafodaeth cytunwyd i godi y prisiau newydd o'r 1af o Ebrill ag hefyd cytunwyd i beidio a chodi am yr hawl i ail osod carreg fedd o hyn ymlaen.

## **5.10 GOHEBIAETH**

### **A Cyngor Gwynedd - Adran Rheoleiddio**

Wedi cael ateb gan yr uchod ynglyn a cyflwr y bysiau sydd yn cael eu defnyddio o amgylch yr ardal ag yn datgan bod y gwasanaeth bws sy'n gwasanaethu'r arfordir yn yr ardal yma, sef y gwasanaeth rhif 38, yn cael ei weithredu rhan helaeth ar sail fasnachol gan Express Motors a bod hyn yn golygu nad oes gan Gyngor Gwynedd reolaeth dros y math o gerbydau (nac yn wir yr amserlen na thrywydd) sydd mewn defnydd ar y gwasanaeth. Nid yn aml yr ydynt yn nodi oedran cerbyd angenrheidiol mewn tendrau gan fod hyn yn cyfyngu'r farchnad ond yn disgwyl iddynt fod yn ddiogel i deithwyr. Hefyd yn datgan mae y DVSA sydd yn gyfrifol am arolygu cyflwr cerbydau ac mae cyfrifoldeb mawr ar y cwmni i sicrhau bod eu holl gerbydau mewn cyflwr da. Yn wir, fel unrhyw gerbyd, y perchennog sydd yn gyfrifol am sicrhau bod y cerbyd yn *roadworthy*. Mae cynnal a chadw cerbydau yn broses barhaus ac mae canllawiau arfer da clir ar gyfer y cwmnïau gan y DVSA ac mae'n hanfodol eu bod yn arddangos tystiolaeth o'r cynnal a chadw ar gyfer cadw eu trwydded gweithredwr ('O Licence'). Mae diffyg cynnal a chadw cerbyd yn gallu arwain at ddirwy uchel gan y Comisiynydd Traffig a gall arwain at gollir hawl i weithredu - mae'n rhaid i'r gweithredwyr gadw cofnod clir o'r holl adroddiadau archwiliad am gyfnod o 15 mis sy'n rhan o gofnod cynnal a chadw'r cerbyd hwnnw. Mae gan bob cwmni sgôr cydymffurfio sydd yn cael ei gyfrifo gan DVSA sef *Operator Compliance Risk Score* sydd yn adnabod pa weithredwr sydd yn risg uchel. Mae'r DVSA yn cadw llygaid ar y rhai sydd â sgôr risg uchel. Hefyd yn datgan nid oes gan Gyngor Gwynedd reolaeth uniongyrchol am y cerbydau a ddefnyddir ond oherwydd ein consyrn byddant yn dod a'r mater i sylw Archwilwyr Traffic y DVSA yn y gobaith y byddent yn gallu sicrhau bod y cerbydau yn ddiogel ar gyfer defnyddwyr.

### **B Un Llais Cymru**

Wedi cael e-bost gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor bod hyd at 70% o grant ar gael gan Lywodraeth Cymru i atgyweirio a diogelu cofebion rhyfel cymunedol fel rhan o weithgareddau cofio'r Rhyfel Byd Cyntaf.

### **C Un Llais Cymru**

Wedi cael e-bost gan yr uchod yn hysbysu y Cyngor bod cyfarfod blynyddol ynghyd a chyfarfod ardal Meirionnydd o'r uchod yn cael ei gynnal yn Canolfan Henblas, Bala ar y 13eg o Fai am 7.00 o'r gloch. Cytunwyd bod y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd yn mynychu y cyfarfod hwn ar ran y Cyngor a bod enw'r Cyng. Eryl Jones Williams ym enw wrth gefn.

### **D Mrs Einir Jones**

Wedi cael llythyr gan yr uchod yn cwyno am y gordyfiant o eiddew ar hyd ochor y ffordd o ystad Penrhiw i Fryn Awelon ac yn gofyn pryd fydd y gwaith o docio yr eiddew yn nol at y wal yn digwydd. Penderfynwyd anfon y llythyr hwn ymlaen i'r Adran Priffyrdd yn Nolgellau.

### **5.11 ADRODDIAD Y TRYSORYDD**

Adroddodd y Trysorydd bod £17,451.39 yn y cyfrif rhedegol, £1,318.63 yng nghyfrif y cae chwarae, £7,532.91 yn y cyfrif wrth gefn a £8.00 yng nghyfrif y Cadeirydd.

#### **Anfonebau angen eu talu ers y cyfarfod diwethaf**

Mr. Dewi Evans - £60.00 - edrych ar ol y ddau barc chwarae  
Mrs Annwen Hughes - £147.00 (cyflog) + £143.89 costau = £290.89  
Aon Insurance - £1,931.18 - insiwrant y Cyngor  
Mr. Gary Martayn - £1,010.00 - torri gwair

#### **Derbyniadau ers y cyfarfod diwethaf**

Cyngor Gwynedd - £491.96 - grant i sefydlu gwefan y Cyngor  
Cyngor Gwynedd - £10,000.00 - hanner y precept

Adroddodd y Trysorydd bod y cwmni insiwrant Aon Ltd yn cynnig i'r Cyngor arbed 5% yn taliad yr insiwrant wrth ymrwymo i gytundeb tair blynedd o hyd. Cytunwyd i hyn ag felly bydd y Cyngor yn talu £1,931.18 yn lle £2,031.35 i'r cwmni insiwrant.

### **5.12 UNRHYW FATER ARALL**

Datganwyd bod y briallu yn edrych yn ddel yn mynwent Llanddwywe.

Eisiau anfon llythyr at Mr. Aled Lloyd, Parc Cenedlaethol i dynnu ei sylw bod gwaith adeiladu yn cael ei wneud yn y coed tu nol i ty Henborth, Talybont.

Cafwyd wybod gan y Clerc ei bod wedi derbyn galwad ffon yn ei hysbysu bod tyllau mewn gwahanol lefydd yn mynwent Llanddwywe ac adroddodd y Cadeirydd ymhellach ei fod wedi bod yn ymweld ar safle a bod tri twll i'w weld yna. Cytunwyd bod yr is-bwyllgor fynwent yn cyfarfod ar y safle.

Gofynnwyd i'r Clerc gysylltu gyda'r Cyng. Emrys Jones i ofyn a yw atgyweirio y lloches bws wedi cael ei orffen.

**ARWYDDWYD.....Cadeirydd**

**DYDDIAD.....**